# Sut i gyflwyno cwyn

## Sut ydw i'n cyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth?

Dilynwch y **tri cham hyn**:

1. Sicrhewch eich bod yn darllen proses gwynion y ganolfan symud mewnfudwyr yn llawn yn gyntaf.
2. Ysgrifennwch nodyn byr yn nodi beth yw natur eich cwyn, a pham ydych chi'n parhau i fod yn anfodlon.
3. Anfonwch gopïau o'ch holl waith papur atom – gan gynnwys ffurflenni cwyno'r ganolfan symud mewnfudwyr.

**Rydym wedi cyfieithu'r daflen hon mewn amryw o ieithoedd. Os na allwch chi ddod o hyd i daflen yn eich iaith chi, cysylltwch â ni.**

# I le y dylech chi anfon eich cwyn

## I le ydw i'n anfon fy holl waith papur?

**Anfonwch gopïau o'ch holl waith papur yn ymwneud â chwyn i'r cyfeiriad hwn:**


Prisons and Probation Ombudsman Third Floor,
10 South Colonnade Canary Wharf,
London E14 4PU

Cewch anfon eich llythyrau at yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth yn **rhad ac am ddim**. Bydd pris postio'ch llythyrau yn cael ei dalu gan y Ganolfan Symud Mewnfudwyr.

**Cofiwch**, peidiwch ag anfon y dogfennau gwreiddiol atom ni gan na allwn eu dychwelyd atoch.

Prisons & Probation Ombudsman
Independent Investigations

# Sut i gyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth



**A ydych wedi cyflwyno cwyn ac yn parhau i fod yn anfodlon?**

Efallai yr hoffech sgwrs â'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth.

Fixed_6.7451_PPO_Stg3-updates_Complaints_DL-lflt_IRC_v6_wel.indd 1-3 17/02/2022 11:12:59

# A wyddoch chi?

- Bob blwyddyn, mae miloedd o **gwynion yn cyrraedd yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth, gan gynnwys cwynion gan unigolion dan gadwad**.
- I ymateb i'r cwynion hyn, rydym yn cynnig **argymhellion** i **ganolfannau symud mewnfudwyr** a phwrpas canlyniadau ein hymchwiliadau yw gwneud dalfeydd mewnfudwyr yn **llefydd mwy diogel a thecach** ar gyfer pobl dan gadwad ledled y wlad.

**Wedi colli eiddo? Yn credu eich bod wedi'ch trin yn annheg? Cysylltwch â'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth.**

# Y gwir am yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth

- Nid ydym yn gweithio i'r Swyddfa Gartref nac i'r asiantaeth Gorfodi Mewnfudo. Mae'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth yn **gwbl annibynnol**.
- Ni fydd eich llythyrau atom ni **yn cael eu darllen gan y Ganolfan Symud Mewnfudwyr**, ac ni chânt eu defnyddio yn eich erbyn chi. Ni fyddwch yn peri trafferth i chi eich hun drwy anfon cwyn atom ni.
- Mae miloedd o gwynion gan unigolion dan gadwad yn ein cyrraedd bob blwyddyn. **Gallwn eich helpu chithau hefyd.**
- Os ydym yn cytuno gyda chi, mae'n bosibl y cewch **ymddiheuriad; y bydd eich colledion yn cael eu talu; y bydd newid yn cael ei wneud i'r ffordd mae'r ganolfan yn gweithio hyd yn oed**.
- Byddwn yn rhoi gwybod i chi a allwn ymchwilio i'ch cwyn **cyn pen 10 diwrnod** ohoni yn ein cyrraedd.

# Beth allwch chi gyflwyno cwyn yn ei gylch?

**Iawn, felly beth allaf i gyflwyno cwyn yn ei gylch?**

**Gallwch gyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth ynghylch pob math o faterion – o'r modd mae staff yn eich trin chi, eich eiddo coll neu ynghylch y drafnidiaeth rhwng carchardai, canolfannau cadw neu eich mamwlad hyd yn oed.**

Ni allwn ymchwilio i'r canlynol:

- Cwynion neu benderfyniadau ynghylch achosion mewnfudo.
- Cwynion ynghylch gofal meddygol.
- Yn gyffredinol, os oes mwy na 3 mis wedi mynd heibio ers i'r ganolfan symud mewnfudwyr roi ateb terfynol i chi ynghylch eich cwyn wreiddiol.
- Rhaid i'r gŵyn ymwneud â digwyddiad a oedd yn eich cynnwys chi, yn hytrach na rhywun arall.
- Os ydych yn dwyn achos cyfreithiol neu wedi dwyn achos cyfreithiol mewn cysylltiad â'r un mater.

Fixed_6.7451_PPO_Stg3-updates_Complaints_DL-lflt_IRC_v6_wel.indd 4-6 17/02/2022 11:12:59